Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penllwyn
# Neuadd y Pentref
# Penllwyn
# Aberystwyth

**Dyddiad yr arolygiad: 23 a 24 Mawrth, 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**
**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Penllwyn yn yr wyth degau ac fe’i lleolir yn neuadd y pentref.  Mae’r rhan fwyaf o’r plant sy’n mynychu’r Cylch yn byw yn y gymuned leol a daw’r teuluoedd o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd cymysg.  Mae’r Cylch yn gweithredu fel aelod o ‘Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Ceredigion’.  Mae hefyd yn aelod cofrestredig o ‘Mudiad Ysgolion Meithrin’.

Mae’r Cylch wedi’i gofrestru ar gyfer 20 o blant dwy a hanner i bedair oed.  Mae’r plant yn mynychu’r Cylch am bedwar bore’r wythnos, ac yn ystod yr arolygiad roedd wyth plentyn tair oed yn bresennol.

Daw tua hanner y plant o gartrefi gyda’r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd.  Nid oes neb o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol .

Mae tri aelod o staff.  Apwyntiwyd y prif ymarferydd a’r ymarferwyr eraill i’w swyddi ym mis Medi 2010.  Mae’r prif ymarferydd yn dilyn hyfforddiant  priodol mewn gofal ac addysg plant bach ac mae gan un cymhorthydd gymwysterau addas yn y maes.  Caiff y lleoliad ei reoli gan bwyllgor o wirfoddolwyr.  Cafodd y Cylch ei arolygu’n llawn gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2010.  Dyma’r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

**Prif arfarniad**

Mae perfformiad cyfredol y darparwr yn ddigonol oherwydd:

- mae'r plant yn hapus yn y Cylch ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- mae'r plant yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu hamser yn y Cylch;
- mae'r prif ymarferydd yn arwain trwy esiampl ac yn hyrwyddo gwaith tîm effeithiol;
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr;
- mae strwythur addas i'r gweithgareddau ond nid oes cynllunio digonol i ddatblygu medrau'r plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu;
- mae gweithdrefnau asesu cynnydd y plant yn cael eu datblygu;
- mae trefn esmwyth i rediad dyddiol y Cylch ond annatblygedig yw gweithdrefnau rheoli staff;
- mae'r gweithdrefnau i arfarnu'r ddarpariaeth a chynllunio gwelliannau yn eu cyfnod cynnar.

### Rhagolygon gwella

Mae gan y Cylch ragolygon gwella digonol oherwydd:

- er bod y prif ymarferydd a'r tîm yn llwyr ymrwymedig i'w gwaith nid ydynt wedi cael amser digonol i sefydlu'r holl weithdrefnau angenrheidiol ar gyfer trefnu a rheoli'r ddarpariaeth;
- mae gweithdrefnau cynllunio'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn eu cyfnod cynnar;
- nid yw'r prosesau asesu a chofnodi cynnydd plant yn llawn weithredol;

- er bod y cynllun gwella newydd yn arenwi meysydd priodol i'w datblygu, mae nifer o'r gweithdrefnau arfarnu yn fwy anffurfiol eu natur.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu mae angen i'r Cylch:

A1 ymestyn medrau'r plant ar draws y meysydd dysgu;

A2 ddatblygu prosesau cynllunio'r cwricwlwm i hyrwyddo dysgu'r plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu;

A3 weithredu'r cynlluniau i asesu a chofnodi cynnydd a datblygiad plant;

A4 sefydlu gweithdrefnau i arfarnu a rheoli'r ddarpariaeth yn llawn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae cyflawniad y plant pan fyddant yn dechrau yn y Cylch yn eang a gwnânt gynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno.

Mae datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn dda. Maent yn dilyn trefn y dosbarth yn arbennig o dda ac yn barod i rannu adnoddau a gweithgareddau. Maent yn cymryd eu tro ac yn deall rheolau syml. Mae'r mwyafrif yn ymwneud â thasgau, megis gwisgo dillad tu allan ac ymolchi eu dwylo, yn annibynnol. Maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o rai o nodweddion diwylliant Cymru, megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi, yn briodol.

Mae datblygiad medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg y plant yn ddigonol. Mae tua hanner y plant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu a

defnyddio'u medrau. Digonol yw cyflawniad y gweddill. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda gyda'r mwyafrif yn deall ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau syml a chyfarwyddiadau. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn trin llyfrau gyda gofal a diddordeb mawr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau adnabod eu henwau. Defnyddiant amrediad o gyfryngau, gan gynnwys paent a phensiliau, yn gynyddol i ymarfer eu medrau marcio.

Mae datblygiad medrau mathemategol y plant yn ddigonol. Mae rhai o'r plant hŷn yn didoli gwrthrychau i wahanol grwpiau yn gywir a chyfrif yn reit hyderus. Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwybod rhigymau rhif ac yn cymryd rhan mewn gemau rhifo syml gyda chymorth. Er bod rhai o'r plant yn deall termau cymharol megis 'mawr' a 'bach' yn dda, nid yw'r mwyafrif yn sicr o dermau mathemategol sylfaenol. Nid yw gallu'r plant i adnabod siapiau dau-ddimensiwn wedi datblygu'n ddigonol.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas yn ddigonol. Mae ganddynt wybodaeth ddatblygol o'r tymhorau, ac o blanhigion ac anifeiliaid cyfarwydd. Maent yn gwybod enwau ffrwythau a llysiau adnabyddus ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gyffredinol o'u synhwyrau. Mae gan y mwyafrif ddealltwriaeth sicr o'r tywydd. Llai datblygedig yw eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae datblygiad medrau corfforol y plant yn dda. Maent yn trin amrywiaeth o offer, megis brwsys paent, sisyrnau ac offer adeiladu, yn dda. Mae eu datblygiad creadigol yn ddigonol. Defnyddiant ddeunyddiau gwahanol yn briodol i gynhyrchu lluniau lliwgar, creu collage syml ac arbrofi gyda sialc. Gwyddant amrediad o ganeuon a rhigymau ac maent yn eu canu'n frwdfrydig. Nid yw'r plant yn ymestyn eu medrau cyfathrebu, dychmygus a chreadigol ymhellach drwy weithgareddau megis chwarae rôl gyda ffocws.

Nid oes unrhyw wahaniaeth cyson yn natblygiad a chyflawniad bechgyn a merched.

**Lles: Da**

Mae lles y plant yn dda. Mae gan y mwyafrif ohonynt ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, gan gynnwys gweithgareddau symud yn y neuadd. Dangosant agweddau da at ddysgu ac mae'r rhan fwyaf yn awyddus i ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dyfalbarhau gyda'r tasgau a osodir yn dda. Maent yn cyd-chwarae gyda'i gilydd yn hwylus ac yn ymddwyn yn dda. Enillant fedrau cymdeithasol cadarn ar gyfer bywyd y tu allan i'r Cylch.

Mae lefelau presenoldeb a phrydlondeb mwyafrif y plant yn dda. Mae enghreifftiau da o bartneriaethau gyda'r gymuned, ac mae'r plant yn elwa arnynt.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Seilir y gweithgareddau ar themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Mae'r broses o gynllunio mwy ffurfiol gan ddefnyddio fframweithiau cwricwlaidd yn ei gyfnod cynnar. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio na'r drefniadaeth yn sicrhau parhad a dilyniant cyson yn y dysgu, gan gynnwys datblygiad y medrau, ym mhob maes dysgu.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn llawn i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Hyrwyddir ymwybyddiaeth y plant o'u hamgylchedd yn briodol drwy astudio prif nodweddion y tymhorau, ymweld â fferm a choedwig, ac arsylwi ar anifeiliaid a phlanhigion. Rhydd y Cylch sylw cyson i hybu medrau Cymraeg y plant a gwneir defnydd effeithiol o gynlluniau megis 'Joio dan 5'. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy weithgareddau addas megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Mae'r addysgu yn dda ar y cyfan. Gwneir defnydd addas o ystod briodol o ddulliau addysgu ac adnoddau i gynorthwyo'r dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynnig cymorth cyson i'r plant. Ymunant yn effeithiol yn y gweithgareddau a rheolir ymddygiad yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Yn ddiweddar, cyflwynwyd gweithdrefnau newydd i olrhain a chofnodi cynnydd a lles y plant. Yn ei gyfnod cynnar mae'r datblygiad pwysig hwn. Trwy drafodaeth, caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu yn gyson am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Maent yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu. Mae trefniadau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgynefino'n dda yn y lleoliad a'u bod yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae trefniadau clir ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen, ac mae llinellau cyfathrebu priodol gydag asiantaethau allweddol. Mae'r lleoliad yn bodloni rheoliadau a chyfrifoldebau diogelu.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol. Darperir cyfleoedd addas i blant berfformio mewn cyngherddau bach ar gyfer y rhieni ac aelodau'r gymuned.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Rhoddir pwyslais da ar gydnabod a pharchu amrywiaeth. Ceir cyflenwad digonol o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae ymwelwyr o'r gymuned, megis ffermwr a phlismon, yn cyfrannu'n achlysurol at gyfoethogi profiadau'r plant.

Caiff y Cylch ei gynnal mewn ystafell sy'n rhan o adeilad y neuadd. Er bod yr ystafell yn fach iawn, gwneir defnydd llawn o'r lle sydd ar gael. Defnyddir y neuadd fawr yn effeithiol ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol. Mae darn bach o dir, sydd yn union y tu allan i'r ystafell, yn cynnig lle chwarae o ansawdd da i'r plant ac yn cynnwys ystod o adnoddau ac offer. Mae'r ymarferwyr yn y broses o ddatblygu gweithgareddau addas i wneud defnydd llawn ohonynt. Llwyddir i greu amgylchedd croesawgar i'r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'u gwahanol gyfrifoldebau ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r prif ymarferydd wedi sefydlu arferion dyddiol cadarn ac fe weithiant yn esmwyth. Cyflawnwyd llawer mewn amser byr. Mae polisïau addas, megis amddiffyn plant a sicrhau cyfleoedd cyfartal, yn weithredol. Mae'r cynllunio tymor hir yn ei ddyddiau cynnar.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ymarferwyr a rhieni/gofalwyr. Mae gan yr aelodau ddiddordeb cryf yn yr hyn sy'n digwydd yn y lleoliad ac maent yn gweithio'n galed i godi arian ac i sicrhau gwelliannau megis darparu offer i'r ardal chwarae allanol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r pwyllgor a chedwir cofnodion. Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Er hyn, nid oes trefn benodol i arfarnu gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ond nid oes gweithdrefnau mwy

penodol ar waith i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth, megis y dysgu, er mwyn adnabod agweddau ar gyfer gwelliant. Trafodir agweddau ar y ddarpariaeth ymhellach gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'r broses a gychwynnwyd cyn yr arolygiad o drafod rhai agweddau ar y ddarpariaeth yn fwy ffurfiol o dan arweiniad yr athrawes gyswllt yn fan cychwyn da. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys targedau a meysydd addas ar gyfer datblygiad pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth dda rhwng yr ymarferwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu os bydd angen cymorth ychwanegol. Mae perthynas dda hefyd rhwng y lleoliad a'r rhieni/ gofalwyr. Cadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau gyda'r rhieni/gofalwyr yn ystod yr arolygiad ac yn eu hymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad. Mae'r ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni/gofalwyr ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol i rieni newydd.

Sefydlwyd perthynas waith adeiladol gyda'r ysgol gynradd leol. Mae'r ymarferwyr a'r plant yn ymweld â'r ysgol ar gyfer gweithgareddau, a threfnir ymweliadau â mannau o ddiddordeb ar y cyd. Mae'r berthynas dda gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad. Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn briodol i gefnogi dysgu'r plant.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Ar y cyfan, caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n addas i gefnogi'r dysgu. Mae'r buddsoddiad yn yr ardal chwarae allanol yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ymgymryd ag ystod o weithgareddau.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant. Er hyn, nid yw gweithdrefnau arfarnu staff wedi'u sefydlu eto. Mae gan y prif ymarferydd a'r pwyllgor ddealltwriaeth briodol o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn ôl anghenion. Caiff penderfyniadau ariannol eu trafod gan y pwyllgor a'u rheoli'n effeithiol gan y trysorydd. Mae'r Cylch yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwyd yr holiaduron gan y rhan fwyaf o'r rhieni a mynegwyd barnau cadarnhaol iawn. Maent yn fodlon â'r Cylch ac yn dweud fod eu plant yn mwynhau a'u bod yn ddiogel yno. Teimlant fod eu plant yn gwneud cynnydd, a chadarnhaol oedd eu hymateb i'r addysgu. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n dda. Maent o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant a bod y staff yn trin eu plant yn deg a gyda pharch.

## Atodiad 2

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)